# Cyngor Cymuned Ganllwyd

Ionawr 8fed 2025

**Presennol**

Cyng D.Morris, C.Dixon,S.Jones,G.Jones.

**Ymddiheuriadau**

Cyng S.Jones.

**Cofnodion Rhagfyr 2025**

Cynnigodd Cyng G.Jones fod y cofnodion yn gywir a eiliwyd gan

Cyng D.Morris

**Datgan diddordeb mewn unrhyw fater a drafodir yn ystod y cyfarfod**.

Dim.

**Materion yn codi.**

Gwefan Neuadd y Pentref- mae swyddogion neuadd y pentref wedi edrych i mewn i'r mater yma, bydd y gost tua £30 y mis a bydd penderefyniad yn cael ei wneud i'w osod yn Ionawr 2025.

Ffordd Gelligemlyn- Nid yw'r cyngor wedi bod i'r ardal i glirio'r dail a.y.y.b

**Caru Coed y Brenin.**

Bydd aelodau CCYB yn cyfarfod ar 13eg o Ionawr.

Rhagwelir y bydd drafft terfynol y cynllun busnes a chynigion eraill ynghylch rhedeg ardal caffi Coed y Brenin wedi ei gwblhau.

Mae AS Mabon Ap Gwynfor wedi bod yn llwyddianus i gael trafod y mater yma yn y senedd ar yr 22ain o Ionawr 2025.

**Cynghorwr Sir**.

Ddim yn bresennol.

**Materion ariannol.**

Cais praesept am y flwyddyn ariannol 2025/26.

Trafodwyd y pwnc uchod gan y cynghorwyr ynghyd ag archwilio'r ffigurau yn y preasept drafft a gyflwynwyd gan y clerc. (isod).

Cais praesept 2025-26.

| | | |
|---|---|---|
| Yn y Banc 01/01/2025 | £3904.30 | |
| Llai sieciau heb glirio | £260.00 | |
| Cyfanswm | £3644.30 | |
| Incwm arfaethedig am y flwyddyn: | | |
| Precept | | |
| Ad-daliad cynnal llwybrau | £577 | |
| Ad daliad TAW | £275 | |
| Cyfanswm (heb preasept) | | £ 4496.30 |

Amcangyfrif o wariant 2025/26

| | |
|---|---|
| Cynnal Llwybrau Cyhoeddus | £1080 |
| Llogi'r Neuadd | £225 |
| Cyflog Clerc | £1200 |
| Ysiwriant | £462 |
| Rhoddion | £600 |
| Toiled Ganllwyd | £250 |
| Archwilydd/cyfrifydd | £760 |

| | |
|---|---|
| Un Llais Cymru | £38 |
| Mr Evans (cynnal a chadw) | £50 |
| (Eitemau amrywiol) | £700 |
| Cyfanswm | £5365 |
| Gweddill (heb praesept) | -£869.30 |

Yn dilyn y trafodaethau penderfynodd y cynghorwyr y dylai'r cyngor wneud cais am swm o £3250 ar gyfer y flwyddyn ariannol hon.

**Cyson Banc: Rhagfyr 2024**

| | |
|---|---|
| Yn y Banc ar ddechrau'r Mis: | £4010.10 |
| Derbyniwyd: | |
| Dim | |
| Taliadau: | |
| Cyflog/Paye | £100.00 |
| Treuliau banc | £5.80 |
| Yn y Banc diwedd mis | £3904.10 |

**Materion cymunedol.**

Tra'n cydnabod y pwysau y mae Priffyrdd Gwynedd wedi bod yn ei ddioddef yn ystod y stormydd diweddar a mathau eraill o dywydd garw, mae'r cynghorwyr yn siomedig nad yw'r holl faterion a godwyd gan y cyngor cymuned wedi eu datrys yn ystod y 6 mis diwethaf.

Bydd y clerc yn trafod y diffygion yma hefo’r Cynghorydd Sir.